



Deunyddiau i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc Lefel A - Gwybodaeth Atodol

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a phartneriaid eraill yn cydweithio i geisio cynyddu'r niferoedd sy'n astudio Cymraeg Lefel A. Rydym wedi ymgynghori gydag athrawon ac wedi ystyried [gwaith ymchwil](#) i ganfyddiadau pobl ifanc er mwyn creu cyfres o ddeunyddiau i annog disgyblion i ddewis y Gymraeg fel pwnc, gan ganolbwyntio ar fwynhad, sgiliau a chyfleoedd gyrfa.

Mae'r canllaw hwn yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth ychwanegol ynghylch sut i wneud y mwyaf o'r deunyddiau ac i atgyfnerthu'r pwyntiau allweddol.

Mae'r deunyddiau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ein bod yn deall y rôl allweddol mae rhieni a gwarcheidwaid yn gallu ei chwarae wrth i ddisgyblion wneud eu dewisiadau Lefel A. Mae'r gwaith hwn yn ran o gynllun cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth o'r manteision o barhau i astudio'r Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi [ymgyrch ddigidol](#) i ysbrydoli mwy o bobl ifanc i ddewis y pwnc, ac i ystyried gyrfa fel athro Cymraeg.

Y deunyddiau

Mae'r deunyddiau yn hyblyg a gallwch ddewis sut i'w defnyddio – eu hargraffu fel posteri neu fflyers, eu hymgorffori mewn cyflwyniadau PwerBwynt neu Prezi mewn nosweithiau dewisiadau, a'u defnyddio ar eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Mae un o'r deunyddiau ar gael fel clip fideo hefyd.

Dilynwch gyfrif [@InstaGymraeg](#) y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chyfrifon [@Cymraeg](#) Llywodraeth Cymru am y newyddion diweddaraf ac am syniadau i ysbrydoli ymhellach. Gwyddom fod sawl enghraifft o arfer da yn digwydd mewn ysgolion unigol ac rydym yn parhau i annog pawb i greu adnoddau eu hunain hefyd. Gobeithiwn y bydd y deunyddiau rydyn ni wedi eu creu yn gymorth i bwysleisio'r negeseuon hynny.

Cysylltu

Rydym yn awyddus i greu cyswllt gydag athrawon y Gymraeg. Os oes gennych unrhyw syniadau ac adborth, neu os hoffech rannu eich deunyddiau hyrwyddo plis cysylltwch â Rhian Jones, Rheolwr Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (rh.jones@colegcymraeg.ac.uk)





Deunydd 1 – Pam dewis Cymraeg Lefel A ? Cwrs cyffrous!

‘Mae angen dweud fod o ddim mor drwm â phynciau eraill, achos tydi o ddim’

Y negeseuon

- i) Pwysleisio manteision y fanyleb Cymraeg Lefel A (laith Gyntaf ac Ail laith) o safbwynt llwyth gwaith, cydbwysedd asesu, cyrhaeddiad a mwynhad
- ii) Annog y disgybl a'i rieni/gwarcheidwaid i ystyried y fanyleb a'i chymharu gyda phynciau eraill cyn dod i gasgliad
- iii) Mae adnoddau ar gael i helpu gyda gwaith cartref

Pa rwystrau mae'r negeseuon yn mynd i'r afael â nhw?

- Mae rhieni am i blant ddewis pynciau maent yn eu mwynhau
- Mae'r Gymraeg yn ddiflas - dim ond hanes a barddoniaeth ydyw
- Gramadeg yw'r cyfan
- Mae'n rhy anodd
- Mae'n ormod o waith
- Dyw rhieni ddim yn gallu helpu gyda gwaith cartref

Adnoddau Ychwanegol (ewch i [Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) i weld y casgliad llawn)

- Cyflwyniad yn rhoi trosolwg o'r cwrs [Lefel A](#) a'r rhesymau dros ddewis y pwnc
- Fideos ar YouTube @Cymraeg ble mae myfyrwraig yn disgrifio ei mwynhad wrth astudio'r Gymraeg: [Fersiwn Cymraeg / Fersiwn Saesneg](#)
- Disgybl ysgol yn sôn am ei [rhesymau hi dros astudio'r Gymraeg](#)
- Fideo sy'n pwysleisio'r [hyn sy'n arbennig am yr iaith Gymraeg](#)
- [E-lyfrau](#), [Dramâu wedi eu digideiddio](#), yr [Esboniadur Beirniadaeth a Theori](#)





Deunydd 2 – Pam dewis Cymraeg Lefel A? Ffocws ar sgiliau

‘....gwneud rhywbeth fyddai’n sicr o arwain at swydd dda’

Y negeseuon

- i) Tynnu sylw at y sgiliau mae LinkedIn wedi eu hadnabod fel y rhai pwysicaf yn y gweithle
- ii) Amlinellu beth yw’r sgiliau a sut mae astudio Cymraeg Lefel A yn datblygu’r sgiliau hynny
- iii) Sut mae’r sgiliau o ddefnydd yn y byd gwaith
- iv) Mae’n cadw’r drws yn agored ar amrywiaeth o swyddi da

Pa rwystrau mae hyn yn mynd i'r afael â nhw?

- Mae’r Gymraeg yn ddiwerth
- Nid yw rhieni’n credu ei fod yn werth chweil
- Mae TGAU Cymraeg yn ddigon
- Na fydd astudio’r Gymraeg yn arwain at swydd dda



Deunydd 3 – Pam dewis Cymraeg Lefel A? Swyddi! Swyddi! Swyddi!

‘Mae angen dangos bod yna werth iddo – ni angen gwybod beth ydy’r cyfleon gyrfa posibl’

Y negeseuon

- i) Ateb y cwestiwn ‘Beth yw’r pwynt?’
- ii) Profi bod modd cyfuno gwyddoniaeth a’r Gymraeg a bod gwerth i’r Gymraeg hyd yn oed i rywun sydd wedi dewis llwybr gyrfa benodol
- ii) Dangos bod amrywiaeth o swyddi cyffrous ar gael i rywun sydd heb ddewis gyrfa benodol
- iv) Enghreifftio’r mathau o swyddi y gellid eu gwneud
- v) Sut mae polisi cyhoeddus yn gyrru’r angen am bobl sydd â sgiliau yn y Gymraeg

Pa rwystrau mae hyn yn mynd i'r afael â nhw?

- Mae’r Gymraeg yn ddiwerth
- Nid yw rhieni'n credu ei fod yn werth chweil
- Mae TGAU Cymraeg yn ddigon
- Nid oes llwybr gyrfa ar gyfer y Gymraeg yn dilyn Lefel A
- Pryd fydda i byth yn ei ddefnyddio y tu allan i’r ysgol?
- Diffyg dealltwriaeth o’r math o swyddi y byddai unigolyn gyda gradd neu Lefel A Cymraeg yn medru gwneud a bod hyn yn cyfrannu at eu penderfyniad i beidio â pharhau gyda’r pwnc
- Disgyblion yn diystyru’r Gymraeg yn y cyfnod ôl-orfodol gan nad ydynt yn gweld ei pherthnasedd i’w dyfodol



Adnoddau Ychwanegol (ewch i [Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) i weld y casgliad llawn)

- [Fideo](#) gan ddarlithydd prifysgol yn trafod manteision astudio'r Gymraeg fel pwnc gradd yn y brifysgol o ran amrywiaeth gyrfaedd
- [Fideo](#) gan un o lysgenhadon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sy'n esbonio pam ei bod yn mwynhau astudio Cymraeg fel gradd yn y brifysgol
- [Fideo](#) gan gwmni cyfieithu yn trafod gwerth sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle
- Fideos ar YouTube @Cymraeg gan unigolyn sydd wedi astudio'r Gymraeg a sydd bellach yn y byd gwaith - [Fersiwn Cymraeg / Fersiwn Saesneg](#)
- [Fideo](#) gan Gyrfa Cymru yn pwysleisio defnyddioldeb y Gymraeg yn y gweithle

Deunydd 4 – Pam dewis Cymraeg Lefel A? Cyrraedd y miliwn!

'We've always been told that if you learn Welsh it might help you, but not about how it helps you'

Y negeseuon

- Dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu gweithleoedd a gwasanaethau dwyieithog
- Bydd cynnydd yn y nifer o swyddi fydd yn gofyn am y Gymraeg oherwydd polisiâu'r Llywodraeth
- Mae prinder pobl sydd â'r sgiliau i wneud y swyddi yma
- Pwysleisio'r cyfleoedd eang sydd ar gael i'r rheiny ag uwch sgiliau yn y Gymraeg
- Mae dysgu a gwella sgiliau yn y Gymraeg yn rhoi mantais glir dros eraill ac yn cynyddu cyfleoedd





Pa rwystrau mae hyn yn mynd i'r afael â nhw?

- Mae'r Gymraeg yn ddiwerth
- Nid yw rhieni'n credu ei fod yn werth chweil
- Mae TGAU Cymraeg yn ddigon
- Nid oes llwybr gyrfa ar gyfer y Gymraeg yn dilyn Lefel A
- Pryd fydda i byth yn ei ddefnyddio y tu allan i'r ysgol?
- Nid pawb sy'n ymwybodol o strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a'r cyfleoedd ddaw yn sgil hynny

Adnoddau Ychwanegol (ewch i [Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) i weld y casgliad llawn)

- Ymgyrch Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg ar ei dudalen YouTube @Cymraeg: [Fersiwn Cymraeg](#) / [Fersiwn Saesneg](#)
- Darlithydd yn trafod sut aeth ati i ddysgu'r Gymraeg ac sut mae'n llawenhau o helpu eraill i astudio'r Gymraeg: [Fersiwn Cymraeg](#) / [Fersiwn Saesneg](#)

Deunydd 5 – Pam dewis Cymraeg Lefel A? Pedwar rheswm sym!

Crynodeb o brif negeseuon deunyddiau 1 – 4 uchod.

Adnoddau Ychwanegol (ewch i [Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) i weld y casgliad llawn)

Ar YouTube @Cymraeg mae teulu yn sgwrsio am y cyfleoedd y gall astudio'r Gymraeg eu cynnig [Fersiwn Cymraeg](#) / [Fersiwn Saesneg](#)

Mae [adran ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) am fanteision astudio'r Gymraeg fel pwnc a gwybodaeth am gyrsiau gradd yn y brifysgol.





Apiau ac
adnoddau
di-ri ar gael
i helpu i
astudio'r
pwnc



CYDBWYSEDD DA
rhwng gwaith cwrs
ac arholiadau

@InstaGymraeg

@Cymraeg

Cyfraddau pasio
sy'n cymharu'n
dda â phynciau
eraill



Pam dewis Cymraeg Lefel A?



Gwaith **WEDI EI**
RANNU ar draws
y flwyddyn



Ehangu cyfleoedd
yn y byd gwaith sy'n
gofyn am sgiliau
dwyieithog



Cyfle i ddatblygu sgiliau
ysgrifennu a dadansoddi
- y pethau sydd yn
bwysig yn ein bywydau
bob dydd!



Llai o
bwysau ar
yr arholiad
olaf

Ffordd berffaith
i ddysgu am bwy
ydyn ni fel Cymry



Pwyslais ar yr elfen
lafar, sy'n datblygu
sgiliau cyfathrebu

Ffocws ar sgiliau

Mae cwmni LinkedIn* wedi cydnabod y prif sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt ac mae modd datblygu'r sgiliau hyn wrth astudio Cymraeg Lefel A.

Beth yw'r sgiliau?

1 Meddwl yn feirniadol



2 Creadigrwydd

“Sgiliau trafod a pherswadio”

3

4

Cyfathrebu




5

Rheoli amser a'r gallu i addasu



6

Gweithio'n annibynnol a chydweithio



Sut mae'r sgiliau o ddefnydd yn y byd gwaith?



- 1 Nid yw cyflogwyr yn chwilio am bobl sy'n eistedd yn ôl gan derbyn popeth. Maen nhw eisiau pobl gweithredol, sy'n barod i wneud gwahaniaeth.
- 2 Maent yn edrych am bobl sydd â gwybodaeth am y maes, ac am bobl sydd â dychymyg byw.
- 3 Mae parchu syniadau eraill yn hollbwysig er mwyn gwneud y mwyaf o dalentau pawb. Mae sgiliau perswadio yn sicrhau y caiff dy lais ei glywed.
- 4 Mae cyfathrebu'n gywir yn creu argraff ac yn dangos dy fod yn gallu rhannu syniadau'n effeithiol ac yn cael y gorau allan o bobl. Dyma'r sgil pwysicaf i nifer o gyflogwyr.
- 5 Os wyt yn drefnus ac yn blaenoriaethu, rwyf ti'n gallu cyflawni llawer mwy. Fyddi di ddim yn gwastraffu amser yn ceisio addasu pan fydd pethau'n newid.
- 6 Mae'n wych gallu profi bod dy reolwr yn ymddiried ynot ti i gyflawni tasg ar dy ben dy hun. Mae'n bwysig dy fod yn gallu gweithio gydag eraill er mwyn rannu syniadau, creadigrwydd, ac er mwyn datrys problemau.

Cofia!

Mae'r Gymraeg yn bwnc perffaith os nad wyt ti wedi penderfynu ar lwybr gyrfa penodol eto. Mae'n cadw'r drws yn agored i lawer iawn o swyddi a chyfleoedd gan y byddi di'n datblygu sgiliau cyffredinol hollbwysig.

Ar gyfartaledd mae 94.5% sy'n astudio'r Gymraeg yn y brifysgol mewn swyddi neu mewn astudiaethau pellach 6 mis wedi iddynt raddio.**

Pam dewis Cymraeg Lefel A?

Swyddi! Swyddi! Swyddi!

"Rwy' eisiau swydd ym maes gwyddoniaeth felly does dim pwynt i fi astudio'r Gymraeg."

Mae cynifer o sefydliadau'n chwilio am bobl sydd â sgiliau da yn y Gymraeg. Mae astudio'r Gymraeg yn un ffordd o brofi'r sgiliau hynny.



Efallai bod angen dewis pynciau er mwyn dilyn gyrfa benodol, ond ystyria'r Gymraeg hefyd – dyma'r pwnc sy'n rhoi mantais i ti.

Dr Guto Huws

Hyfforddi i fod yn feddyg teulu



“Yn aml, y ffordd fwyaf effeithiol o drin cleifion yw drwy eu hiaith gyntaf. Mae'n bwysig wrth weithio gyda phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, anableddau dysgu, pobl sy'n derbyn therapi iaith a lleferydd yn ogystal â'r henoed a phlant. Wnes i ddim meddwl cymaint o fudd fyddai astudio Cymraeg AS i mi yn fy ngyrfa fel meddyg. Mae cael cymhwyster yn y Gymraeg yn rhoi'r hyder i chi siarad yr iaith mewn sefyllfa broffesiynol.”

Mae ymgyrch 'Gofal Da, Gofal Dwyieithog' Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am fwy o wasanaethau iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

@InstaGymraeg

@Cymraeg

Cadwa'r drws yn agored i'r Gymraeg!

Ar ôl astudio Cymraeg Lefel A mae modd mynd i astudio'r pwnc yn y brifysgol. Mae'r rhai sydd yn graddio yn y Gymraeg yn gweithio mewn meysydd amrywiol iawn. Dilyna @InstaGymraeg @Cymraeg a chwilia am sianel You Tube Cymraeg er mwyn darganfod mwy.

Catrin Richards

Cynhyrchu rhaglenni teledu

“Mae sgiliau da yn y Gymraeg yn allweddol yn fy swydd. Rwy' mor falch fy mod wedi astudio'r Gymraeg fel pwnc yn y brifysgol. Rwy'n gweithio i gwmni cynhyrchu sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd ac yn cynhyrchu rhaglenni teledu i S4C. Mae cyfathrebu'n gywir, e-bostio, cynnal cyfarfodydd a gweithio'n broffesiynol drwy'r Gymraeg yn hollbwysig. Mae'r cwmni hefyd yn cynhyrchu rhaglenni i sianeli eraill ac rwy' wedi bod yn ffodus i weithio ar draws y byd gyda phobl fel Stormzy, Idris Elba, Maya Jama, Tom Jones, a sêr y byd chwaraeon.”

Mae sawl cwmni teledu yng Nghymru yn gweithio drwy'r Gymraeg ac yn aml yn hysbysebu swyddi lle mae'r Gymraeg yn angenrheidiol.



Pam dewis Cymraeg Lefel A?

@InstaGymraeg

@Cymraeg

Cyrraedd y Miliwn!

1M

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



Maent felly'n gosod llawer o bwyslais ar bwysigrwydd gweithleoedd sy'n ddwyieithog.



Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.



Dim ond canran o boblogaeth Cymru sy'n siarad Cymraeg.



Dim ond rhai o'r siaradwyr hynny sydd wedi datblygu eu sgiliau i deimlo'n ddigon hyderus i weithio drwy'r Gymraeg ac sy'n gymwys i wneud hynny.



Mae cynifer o swyddi sy'n galw am rhywun â sgiliau da yn y Gymraeg, ond dim ond canran fechan o bobl sy'n gymwys i gael eu cyflogi i'r swyddi hynny.



Dychmyga'r cyfleoedd sydd ar gael i rywun sydd wedi dewis Cymraeg Lefel A.



Pam dewis Cymraeg Lefel A?

4 rheswm syml!

@InstaGymraeg

@Cymraeg

Cwrs cyffrous

– manyleb sy'n amrywiol, yn gydbwysedd da rhwng gwaith cwrs ac asesiadau, ac yn gyfle i ddysgu am bwy ydyn ni fel Cymry.

Ffocws ar sgiliau

– mae astudio Cymraeg Lefel A yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen yn y byd gwaith.

Swyddi! Swyddi! Swyddi!

– mae'r Gymraeg yn cadw'r drws yn agored i gynifer o swyddi a gyrfaedd cyffrous ac amrywiol.

Cyrraedd y miliwn

– mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd mantais fawr gan unrhyw un sy'n gallu gweithio'n broffesiynol drwy'r Gymraeg.



A wealth of apps and resources available to help study the subject



A GOOD BALANCE between coursework and exams

@InstaGymraeg

@Cymraeg

Pass rates which bear comparison with other subjects



Work **DISTRIBUTED** across the year

Why choose A Level Welsh?



Opens up opportunities in workplaces where bilingual skills are needed



Opportunities to develop writing and analysis skills – the things that matter in our daily lives!



Less emphasis on final exam

A perfect way to learn who we are as Welsh people




Focus on speaking and developing communication skills

Focusing on skills

LinkedIn* has identified the main skills which employers look for and these skills can be developed through studying A Level Welsh.

What are the skills?

1 Critical thinking



2 Creativity



“Negotiation and persuasion skills”

3



5 Time management and adaptability

6

Working independently and as a team

4 Communication



How are the skills of use in the workplace?



@InstaGymraeg

@Cymraeg

- 1 Employers are not looking for people who sit back, accepting everything. They want active people, who are ready to make a difference.
- 2 They want people who are imaginative, as well as knowledgeable.
- 3 Making the most of everyone's talents depends on respecting other people's ideas, but persuasion skills are also important to make sure your voice is heard.
- 4 Being able to communicate accurately makes an impression and shows you can share ideas effectively and get the most out of people. Many employers consider this the most important skill.
- 5 Being well organised and able to prioritise leads to higher achievement. You also won't waste time trying to adapt when there are changes.
- 6 It's great to be able to prove that your manager trusts you to complete tasks on your own. It's also important to be able to work with others to share ideas, creativity, perspectives and problem solving approaches.

Remember!

Welsh is the perfect subject if you haven't decided on a specific career path yet. By developing key skills, it keeps your options open for a wide range of jobs and opportunities.

On average 94.5% of those who study Welsh at university are in jobs or further study 6 months after graduating. **



Why choose A Level Welsh?

Jobs! Jobs! Jobs!

So many organizations are looking for people who have Welsh language skills. Studying Welsh as an A Level is one way of proving those skills

"I want a job in science so studying Welsh is pointless."



You may need to study some specific subjects for a particular career but consider Welsh as well – this is the subject that gives you an advantage.

Dr Guto Huws

Training to be a GP



“Often, patients can only be treated effectively by speaking their first language. This is important when working with people who have mental health difficulties, learning disabilities, who are receiving speech and language therapy as well as the elderly and children. I didn't realise how beneficial studying AS Welsh would be for me in my career as a doctor. Having a qualification in Welsh gives you the confidence to speak the language in a professional setting.”

The Welsh Government's 'Good Care, Bilingual Care' campaign recognises the need for more Welsh language services in the health service.

Catrin Richards

Produces television programmes

“Good Welsh language skills are crucial to my job. I'm so glad I studied Welsh at university. I work for a production company that uses the Welsh language every day and produces television programmes for S4C. Communicating correctly, e-mailing, holding meetings and working professionally through Welsh are vital. The company also produces programmes for other channels, and I've been fortunate to work all over the world with people like Stormzy, Idris Elba, Maya Jama, Tom Jones and sporting celebrities.”

There are several television companies working through the medium of Welsh in Wales and often advertise jobs where Welsh is essential.


@InstaGymraeg

@Cymraeg

Keep the door open to Welsh as a subject!

After studying A level Welsh you can go on to study the subject at university. Welsh language graduates work in a wide variety of fields.

Follow @InstaGymraeg @Cymraeg and search the Cymraeg YouTube channel to find out more.



Why choose A Level Welsh?

@InstaGymraeg

@Cymraeg

Reaching the Million!

1M

The Welsh Government has set a target of one million Welsh speakers by 2050.



Much emphasis has therefore been placed on the importance of bilingual workplaces.



Public services are required by law to treat Welsh and English equally.



Only some of the population of Wales are Welsh speakers.



Only some of those Welsh speakers have developed their skills to be confident enough to work through the medium of Welsh, and are competent to do so.



There are many jobs for which Welsh language skills are needed, but only a small percentage of people are suitably qualified.



Just imagine the opportunities available to someone who has chosen A level Welsh.

Keep the door open to Welsh as a subject



Why choose

A Level Welsh?

4 simple reasons!

@InstaGymraeg

@Cymraeg

An exciting course

- varied with a good balance between coursework and assessments, and an opportunity to learn about who we are as Welsh people.

A focus on skills

- studying A Level Welsh develops the skills needed in the workplace.

Jobs! Jobs! Jobs!

- the Welsh language keeps the door open to so many exciting and varied jobs and careers.

Reaching the Million

- the Welsh Government has set a target of one million Welsh speakers by 2050. Anyone who can work professionally through the medium of Welsh will have a major advantage.